

Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

PC45: Cynnydd poblogaeth, tai ac effaith addysg

Cynllun i'w archwilio
gan y cyhoedd
Rhagfyr 2025



This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar [wefan y Cyngor](#). Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 576311 / 575445 / 575432 / 574232 / 575447.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cynnwys

1	Cyflwyniad	4
2	Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chanllawiau.....	4
3	Y ddarpariaeth bresennol o ran ysgolion.....	5
4	Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	6
5	Effaith y twf rhagamcanol yn ystod cyfnod y CDLIN ar gapasiti ysgolion	8
6	Dull polisi'r CDLIN	10
7	Ysgolion Cynradd.....	11
7.1	Ardal Strategaeth CDLIN y Gorllewin: Llanfairfechan, Penmaenmawr a Dwygyfylchi.....	11
7.2	Ardal Strategaeth CDLIN y Creuddyn:.....	16
7.3	Ardal Strategaeth CDLIN yr Ardal Ganolog: Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn, Hen Golwyn, Mochdre a Lllysfaen	26
7.4	Ardal Strategaeth CDLIN y Dwyrain: Abergele, Towyn a Bae Cinmel, a Llanddulas	35
7.5	Ardal Wledig y CDLIN: Llanrwst	40
8	Ysgolion Uwchradd	42
9	Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.....	44
10	Casgliad.....	45

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae hwn yn un o gyfres o bapurau cefndir sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, mae'n rhaid iddo hefyd egluro sut mae'r polisi wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd.
- 1.2 Mae'r papur hwn wedi'i baratoi gyda Gwasanaethau Addysg CBSC. Mae Datganiad Tir Cyffredin wedi'i baratoi ochr yn ochr â'r papur hwn. Pwrpas y papur cefndir hwn yw:
- Manylu ar newid yn y boblogaeth yn ôl y CDLIN a'r effaith bosibl ar nifer y disgyblion
 - Manylu ar y ddarpariaeth ysgol bresennol a'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
 - Nodi a oes angen neilltuo tiroedd strategol ac ardaloedd wedi'u diogelu er mwyn cwrdd â'r ddarpariaeth ysgol newydd
 - Asesu effaith safleoedd preswyl arfaethedig sydd wedi'u neilltuo a safleoedd tai eraill ar gapasiti ysgolion ac argymell mesurau lliniaru priodol
 - Adolygu polisi addysg presennol y CDLI a darparu trosolwg o'r dull polisi diwygiedig ar gyfer y CDLIN

2 Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chanllawiau

- 2.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) wedi'i adolygu er mwyn iddo gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae PCC wedi'i rannu'n bedair thema amlwg, sy'n dod â gofynion y Ddeddf i gyd-destun ar gyfer y polisi cynllunio ac yn dangos y rhyng-gysylltiadau rhwng polisiâu cynllunio. Mae addysg yn rhan o thema Lleoedd Egniïol a Chymdeithasol, dan Gyfleusterau Cymunedol.

- 2.2 Mae paragraff 4.4.1 yn dweud bod ysgolion, a chyfleusterau cymunedol eraill, yn cyfrannu tuag at ymdeimlad o le, sy'n bwysig ar gyfer ieuchyd, lles ac amwynder cymunedau lleol. Mae cyfleusterau cymunedol, fel ysgolion, yn aml yn elfen allweddol o leuedd hyfyw a chynaliadwy.
- 2.3 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu dull strategol a hirdymor ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys ysgolion. Dylid ystyried anghenion y gymuned leol wrth ystyried cynigion datblygu, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fodloni gofynion preswylwyr lleol.
- 2.4 Mae ysgolion hefyd wedi'u cynnwys yn adran Creu Lleoedd Strategol PCC, dan hygyrchedd. Dylai cyfleusterau sy'n achosi galw mawr am deithio, yn cynnwys ysgolion, gael eu lleoli o fewn ardaloedd trefol sy'n bodoli'n barod neu ardaloedd sy'n hawdd eu cyrraedd ar droed neu feic, ac sydd wedi'u gwasanaethu gan gludiant cyhoeddus.
- 2.5 Ni ddylai defnyddiau sensitif, yn cynnwys ysgolion, fod wrth ymyl ffyrdd prysur na llwybrau cludiant eraill lle nad oes manteision o ran cysylltiadau, a lle mae'r amlygiad pellach i lygryddion yn effeithio ar ieuchyd ac amwynder yn negyddol (paragraff 6.7.19). Mae'n bosibl y gall mesurau lliniaru a dylunio da oresgyn yr effaith negyddol ar ieuchyd a lles.

3 Y ddarpariaeth bresennol o ran ysgolion

- 3.1 Mae yna 51 ysgol gynradd, 7 ysgol uwchradd, 1 ysgol arbennig a 4 Canolfan Cyfeirio Disgyblion yn y fwrdeistref. Mae addysg ysgol annibynnol hefyd ar gael yn y fwrdeistref, yng Ngholeg Dewi Sant a Rydal Penrhos. Ni fydd pob disgybl yn preswyllo yn y fwrdeistref.
- 3.2 Mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol (Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru. Bydd y cynlluniau hyn yn para 10 mlynedd o fis Medi 2022 ac yn amlinellu sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu cyrraedd nodau a thargedau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

3.3 Gweledigaeth Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Conwy yw cynyddu darpariaeth addysg Gymraeg y fwrdeistref o 14%+ dros y deng mlynedd nesaf er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o 30% erbyn 2031.

3.4 Dyma'r ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd yn y fwrdeistref:

- 20 ysgol gynradd lle defnyddir y Gymraeg fel iaith bob dydd yr ysgol
- 1 ysgol ddwy ffrwd, lle defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg fel iaith bob dydd yr ysgol
- 1 ysgol ddwyieithog, ble mae 50-79% o'r pynciau yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- 14 ysgol Saesneg gyda llawer o Gymraeg, a ble caiff iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd eu pennu gan gyd-destun ieithyddol yr ysgol

3.5 Ceir 5 ysgol ffydd yn y fwrdeistref:

- Ysgol Sant Joseff, ysgol gynradd Gatholig ym Mae Colwyn
- Ysgol y Plas, ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn Llanelian
- Ysgol San Siôr, ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru yn Llandudno
- Ysgol Bodafon, ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn Llandudno
- Ysgol Bendigaid William Davies, ysgol gynradd Gatholig yn Llandudno

4 Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

4.1 Mae gan Lywodraeth Cymru raglen newydd o fuddsoddiad hirdymor ar gyfer ysgolion a cholegau er mwyn eu datblygu'n ganolfannau dysgu a lleihau nifer yr adeiladau sydd mewn cyflwr gwael.

4.2 Mae Gwasanaethau Addysg a thîm Pholisi Cynllunio Strategol CBSC yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiectau hyn. Ar gyfer y CDLIN, mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer tir newydd i godi ysgolion newydd neu estyn adeiladau ysgol presennol (pan fo angen) a dull polisi sy'n ganllaw i geisiadau. Gwelwch Adran 6 am fwy o fanylion.

- 4.3 Darparwyd y don gyntaf fel rhan o brosiectau Band A Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ac fe'u cyflawnwyd fis Mawrth 2019. Cyflawnodd brosiectau Band A Bwrdeistref Sirol Conwy newidiadau mewn pedair ardal. Codwyd ysgol ddwy ffrwd newydd, Ysgol Awel y Mynydd, yng Nghyffordd Llandudno, a ddaeth â disgyblion Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed at ei gilydd. Agorwyd yr ysgol yn swyddogol fis Tachwedd 2017.
- 4.4 Mae ysgol gynradd ddilyniannol newydd, Ysgol Nant y Groes, wedi'i chodi ym Mae Colwyn drwy ailwampio ac estyn yr adeilad ysgol presennol. Daeth â disgyblion Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan at ei gilydd. Agorodd yr ysgol newydd fis Ionawr 2018.
- 4.5 Ailddatblygwyd safle Ysgol Tan y Marian i ddod â disgyblion Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Iau Tan y Marian at ei gilydd mewn ysgol newydd sbon o'r enw Ysgol Sŵn y Don. Mae hon yn ysgol gynradd ddilyniannol ac fe'i hagorwyd fis Ionawr 2018.
- 4.6 Codwyd ysgol newydd, Ysgol Dyffryn yr Enfys, yn Nolgarrog, i ddisodli Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw. Agorwyd yr ysgol yn 2019.
- 4.7 Mae'r dull wedi newid ers hyn, er mwyn adlewyrchu canfyddiadau profiadau blaenorol. Mae'r dull bellach yn rhaglen dreigl 9 mlynedd, gydag adolygiadau rheolaidd. Bydd yn cael ei gyflwyno i Gabinet CBSC ar 16 Gorffennaf 2024 a bydd yr adran hon o'r papur yn cael ei diweddarw wedyn.
- 4.8 Mae'r adroddiad yn awgrymu'r prosiectau canlynol (yn amodol ar gefnogaeth wleidyddol):

- **Blynyddoedd 1-3: Ysgol y Gogarth ac Ysgol Eirias**

Nid oes angen tir ychwanegol ar gyfer y prosiectau hyn. Bydd dull polisi'r CDLIN yn cefnogi unrhyw gais cynllunio, yn amodol ar ofynion polisi eraill.

- **Blynyddoedd 4-6: Ysgol Deganwy ac ardal Llanfairfechan**

Mae gormod o ddisgyblion yn Ysgol Deganwy ac maen nhw'n defnyddio ystafell ddosbarth dros dro ar y safle. Gall cynyddu nifer y lleoedd ar safle presennol yr ysgol drwy godi estyniad ddatrys y problemau. Os ystyrir y

bydd angen ysgol newydd yn y dyfodol, bydd dull polisi'r CDLIN yn cefnogi hynny, yn amodol ar ofynion polisi eraill.

Mae'r safleoedd ysgol yn Llanfairfechan yn gyfyngedig ac mae'r opsiynau o ran codi estyniad arnyn nhw hefyd yn gyfyngedig. Yn ystod cam y Strategaeth a Ffefrir y CDLIN neilltuwyd tir i gefnogi ysgol newydd ar y safle strategol a neilltuwyd. Bydd y tir hwn yn parhau i gael ei neilltuo drwy gydol proses y CDLIN.

- **Blynyddoedd 7-9: Adolygiad ardal o ysgolion Llandudno**

Bydd y cydweithio agos rhwng y Gwasanaethau Polisi Cynllunio Strategol ac Addysg yn parhau i gefnogi'r adolygiad hwn. Mae'r dull polisi a gynigir yn cefnogi gwaith ailwampio/estyniadau ar safleoedd presennol, neu safleoedd ysgol newydd yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad.

5 Effaith y twf rhagamcanol yn ystod cyfnod y CDLIN ar gapasiti ysgolion

- 5.1 Opsiwn twf 4 yw'r un a ddefnyddir yn y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Gweler Papur Cefndir 1 am fwy o fanylion. Yn y tabl isod mae crynodeb cyffredinol o'r effaith ar blant oed ysgol ar draws y fwrdeistref sirol.

Tabl 1: Yr opsiwn twf a gynigir a'r effaith bosibl ar addysg

Ffynonellau: Rhagamcaniadau 2018, CBSC; ffigyrau dwysedd swyddi, SYG

Dangosydd effaith	Cyfansymiau 2018	Newid / effaith bosibl y dewis a ffefrir 2018-2033
Rhagamcaniad		
Poblogaeth	114,400	4,950
Aelwydydd	52,750	3,350
Addysg		
Oedran cyn-ysgol (0-4)	5,350	-400
Oedran ysgol gynradd (5-10 oed)	7,350	-850
Lleoedd ysgol uwchradd / addysg bellach (11-17 oed)	8,400	400

- 5.2 Mae'n rhagweld gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion cynradd (850 yn llai o blant 5-10 mlwydd oed) a chynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd. Yn anffodus, mae cywirdeb yr amcanestyniadau hyn gyda daearyddiaeth lai yn golygu na fyddai'n briodol rhannu'r ffigyrau hyn i ardal ddaearyddol lai, oherwydd ni allant gymryd dosbarthiad gofodol tai newydd a newidiadau ar lefel anheddiad unigol i ystyriaeth.
- 5.3 Oherwydd hyn, cynhaliwyd adolygiad o ddarpariaeth ysgolion ym mhob anheddiad. Y man cychwyn oedd adolygu capasiti presennol ysgolion, nifer y disgyblion a nifer rhagamcanol y disgyblion yn defnyddio data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Lluniwyd amcanestyniadau pum mlynedd ar gyfer pob ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion sydd eisoes yn mynychu a phlant iau sy'n byw yn y dalgylchoedd.
- 5.4 Defnyddiwyd methodoleg wahanol i'r amcanestyniadau a ddefnyddiwyd ym Mhapur Cefndir 1: Adroddiad Opsiynau Lefel Twf. Mae amcanestyniadau CYBLD yn fwy priodol i'w defnyddio ar lefel ardal (ysgol) fach na'r rheiny ym Mhapur Cefndir 1, ond mae yna anfanteision hefyd. Dydyn nhw ddim yn ystyried pobl sy'n symud i mewn nac allan o'r ardal, na dewis rhieni. Felly mae angen monitro rheolaidd i wneud yn siŵr bod y data a ddefnyddir yn gadarn ac yn berthnasol.
- 5.5 Cynhaliwyd dadansoddiad manwl i ddangos faint o ddisgyblion pob ysgol sy'n byw yn nalgylch yr ysgol honno. Aseswyd hyn i weld a fyddai modd creu capasiti drwy roi'r polisi dalgylch ysgolion ar waith yn fwy llym.
- 5.6 Nid yw amcanestyniadau ysgolion yn ystyried pobl yn symud i mewn ac allan. Oherwydd hyn, mae nifer rhagamcanol o ddisgyblion mewn anheddau newydd, sydd wedi cael caniatâd ac ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLIN ymhob ardal ysgol, wedi'u cynnwys. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar nifer cyfartalog y plant mewn aelwyd sydd o oedran ysgol, yn ôl Cyfrifiad 2021.
- 5.7 Y cam olaf oedd dadansoddi i ba ysgol mae plant pob dalgylch yn mynd iddi. Mae hyn yn ein helpu ni i wybod pa ysgolion y bydd y disgyblion yn y datblygiadau newydd yn debygol o fynd iddyn nhw. Mae'r asesiad yn ystyried ffydd, iaith a dewis rhieni.

- 5.8 Ffactor arall i'w nodi yw canran preswylwyr y tai newydd fydd eisoes yn byw yn y fwrdeistref. Felly mae'n bosibl y bydd y disgyblion yn mynd i ysgol leol yn barod ond mae yna bosibilrwydd hefyd y byddan nhw'n symud i'r ysgol agosaf i'w cartref newydd. Ni cheir data i asesu hyn mewn ffordd gywir, ac felly nid yw'r asesiad o'r effaith isod yn ystyried hyn.

6 Dull polisi'r CDLIN

- 6.1 Mae'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys polisi CFS/15, sy'n cefnogi cynigion ar gyfer ysgolion newydd, yn amodol ar y polisiâu egwyddorion datblygu. Mae'r polisi wedi'i roi ar waith yn llwyddiannus i helpu gyda'r cynigion ar gyfer ysgolion sydd wedi cael caniatâd cynllunio yn ystod cyfnod y cynllun, ond ychydig iawn o ganllawiau a geir ar gyfer dau faes penodol. Yn gyntaf, ar gyfer codi estyniad ar ysgol sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys estyniadau mawr. Yn ail, nid oes unrhyw arweiniad ar gyfer yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn lleoliad priodol ar gyfer ysgol newydd.
- 6.2 Gall y CDLIN neilltuo a diogelu tir yn ôl yr angen ar gyfer ysgolion newydd neu estyniadau. Mi fydd yna bolisi yn seiliedig ar feini prawf sy'n rhoi arweiniad ynglŷn â lleoliad safleoedd newydd ar gyfer ysgolion, gan eu caniatáu gerllaw ffiniau aneddiadau os na ellir canfod lleoliad priodol o fewn y ffiniau.
- 6.3 Pan fo datblygiadau mawr (ar safleoedd wedi'u neilltuo neu hap-safleoedd) yn debygol o achosi neu waethygu problemau o ran capasiti ysgolion, gofynnir am gyfraniadau ariannol i fynd i'r afael â'r problemau hynny. Cesglir cyfraniadau ariannol tuag at ysgolion drwy rwymedigaethau cynllunio Adran 106. Er mwyn cael caniatâd cynllunio, bydd yn rhaid llofnodi'r cytundeb Adran 106. Mae deddfwriaeth genedlaethol yn cyfyngu trefniadau cyfuno cyfraniadau ariannol o'r broses gynllunio, ac felly ni allwn ofyn am yr un rhwymedigaeth fwy na 5 gwaith. Mewn ardaloedd ble mae problemau capasiti mawr mewn ysgolion, mae'n rhaid ystyried hyn yn gynnar gyda Gwasanaethau Addysg CBSC i sicrhau bod cyfraniadau Adran 106 yn cael eu casglu'n gyfreithiol.
- 6.4 Byddai angen tystiolaeth briodol o'r cyfraniad ariannol y gofynnir amdano i fodloni Rheoliadau'r ASC (Ardoll Seilwaith Cymunedol) a gofynion cynllunio

eraill. Mae Rheoliad 122 (2) yn nodi bod yn rhaid i rwymedigaeth y gofynnir amdani fod:

- I. Yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
- II. Yn ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad; ac
- III. Yn gymharol berthnasol o ran graddfa a'r math o ddatblygiad.

6.5 Er mwyn ceisio rhwymedigaeth tuag at ddarpariaeth addysg, mae'n rhaid gallu dangos bod problemau capasiti oherwydd yr isadeiledd ffisegol (nid staffio) a bwlch ariannol na all unrhyw ffynhonnell arall ei lenwi

6.6 Cyfrifir y swm hwn yn seiliedig ar amcangyfrif o nifer y disgyblion a chostau adeiladu, a nodir yn y Canllaw Cynllunio Atodol sy'n cyd-fynd â'r CDLIN. Bydd yn rhaid i unrhyw rwymedigaeth a geisir ymwneud â'r datblygiad arfaethedig o ran nifer rhagamcanol y disgyblion newydd, ac ni ellir ei defnyddio i unioni diffyg presennol mewn capasiti.

7 Ysgolion Cynradd

7.1 Ardal Strategaeth CDLIN y Gorllewin: Llanfairfechan, Penmaenmawr a Dwygyfylchi

7.1.1 Caiff addysg gynradd yn Llanfairfechan ei ddarparu gan ddwy ysgol ar hyn o bryd, Ysgol Pant y Rhedyn (128 disgybl) ac Ysgol Babanod Llanfairfechan (87 disgybl). Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn y ddwy ysgol yn lleihau dros y 5 mlynedd nesaf.

7.1.2 Mae Ysgol Pencae, Penmaenmawr (123 o ddisgyblion) yn darparu addysg drwy gyfrwng Cymraeg i ardal y strategaeth. Mae yna ryw faint o gapasiti yn Ysgol Pencae, a rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu dros y 5 mlynedd nesaf.

7.1.3 Caiff addysg gynradd yn Nwygyfylchi ei ddarparu'n bennaf gan Ysgol Capelulo (135 o ddisgyblion). Mae Penmaenmawr hefyd yn rhan o ddalgylch yr ysgol hon. Mae'r ysgol bron yn llawn, a rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu.

Tabl 2: capasiti a nifer y disgyblion yn ardal strategaeth y Gorllewin (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020 a CYBLD 2024, Addysg, CBSC

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Niferoedd rhagamcanol 2029	Yn byw yn nalgylch yr ysgol
Babanod Llanfairfechan	92	5	87	83	94%
Ysgol Pant y Rhedyn	173	45	128	116	94%
Ysgol Pencae, Penmaenmawr	183	60	123	168	95%
Ysgol Capelulo, Dwygyfylchi	133	3	135	140	97%

7.1.4 Mae'r tabl uchod hefyd yn dangos canran y disgyblion sy'n mynd i'r ysgolion ac yn byw o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol. Ar gyfer pob ysgol yn yr ardal hon, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw yn nalgylch eu hysgol.

7.1.5 Ni fydd pob plentyn a fydd yn byw yn y datblygiadau newydd arfaethedig neu ymrwymedig yn yr ardal yn mynd i ysgol y dalgylch. Bydd rhai yn dewis ysgol y tu allan i'r dalgylch am resymau amrywiol. Er enghraifft, bydd rhai yn dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill yn dewis ysgol ffydd.

7.1.6 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Babanod Llanfairfechan ac Ysgol Pant y Rhedyn. Nid yw'n cynnwys disgyblion sy'n cael eu haddysg yng Ngwynedd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd i Ysgol Pencae ym Mhenmaenmawr. Wedi'u cynnwys yn y categori 'Arall' mae niferoedd bychain sy'n mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 3: Dewis ysgol yn nalgylch Ysgol Babanod Llanfairfechan ac Ysgol Pant y Rhedyn (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgyrch Pant y Rhedyn)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	250	100%
Babanod Llanfairfechan	85	33%
Ysgol Pant y Rhedyn	140	55%
Arall (CBSC)	10	4%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	15	6%
Ysgolion ffydd**	5	2%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

- 7.1.7 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Pencae, Penmaenmawr. Mae'r dalgyrch yn gorchuddio holl ardal y gorllewin. Mae 21% o blant yr ardal hon yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 70% ohonyn nhw'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg. Wedi'u cynnwys yn y categori 'Arall' mae niferoedd bychain sy'n mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 4: Dewis ysgol dalgyrch Ysgol Pencae (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgyrch Ysgol Pencae)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	520	100%
Ysgol Pencae	110	21%
Ysgol Babanod Llanfairfechan neu Ysgol Pant y Rhedyn	230	44%
Ysgol Capelulo	135	26%
Arall (CBSC)	30	6%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	15	3%
Ysgolion ffydd**	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

8.1.8 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Capelulo. Mae bron i hanner y plant yn mynd i Ysgol Capelulo. Mae 37% yn mynd i Benmaenmawr i gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi'u cynnwys yn y categori 'Arall' mae niferoedd bychain sy'n mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 5: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Capelulo (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgyrch Ysgol Capelulo)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	270	100%
Ysgol Capelulo	130	49%
Ysgol Pencae	100	37%
Ysgol Porth y Felin	10	4%
Ysgolion Llanfairfechan	10	3%
Arall	10	4%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	10	3%
Ysgolion ffydd**	-	0%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.1.9 Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o nifer y disgyblion a all fod yn preswyl ar safleoedd yn nalgylchoedd ysgolion sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r disgyblion hyn eisoes yn byw yn y fwrdeistref ac yn mynd i ysgol arall (gwelwch y tablau dewis ysgol uchod). Mae'r safle strategol sydd wedi'i neilltuo yn Llanfairfechan yn darparu rhan fwyaf o'r datblygiad preswyl arfaethedig yr ardal hon i'r dyfodol.

Tabl 6: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn ardal strategaeth y Gorllewin

Ffynhonnell: Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, CBSC

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif o nifer y disgyblion
Dyraniad safle strategol, Llanfairfechan	Dyraniad	145	22
Dyraniadau eraill (ardal y Gorllewin)	Safle piblinell (cais cynllunio 0/51305)	56	8
Hap-safleoedd ar gyfer y Gorllewin	Safleoedd amrywiol tan ddiwedd cyfnod y Cynllun	75	11
Y Bluen Goch, Dwygyfylchi	Rhoddwyd caniatâd cynllunio. Rhagweld ei gwblhau yn y 2 flynedd nesaf.	20	3
Ffordd Conway, Penmaenmawr	Rhoddwyd caniatâd cynllunio. Rhagweld ei gwblhau yn y 2 flynedd nesaf.	14	2

Argymhellion

7.1.10 Bydd capasiti pob ysgol yn cael ei fonitro drwy gydol proses y CDLIN. Bydd cyfraniad ariannol yn ofynnol gan ddatblygwyr (yn amodol ar hyfywedd ariannol), os ystyrir hynny'n angenrheidiol ar gyfer creu capasiti mewn ysgolion.

7.1.11 Ysgol Babanod Llanfairfechan ac Ysgol Pant y Rhedyn: Mae

Gwasanaethau Addysg CBSC yn cynnig agor ysgol newydd, a fydd yn uno'r ddarpariaeth gynradd bresennol yn Llanfairfechan fel rhan o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Fwrdeistref Sirol. Neilltuir tir ar ran o safle strategol Llanfairfechan yn y CDLIN ar gyfer hyn (yn amodol ar benderfyniad y Cabinet, (16/07/2024). Mae trafodaethau gyda'r datblygwr a'r tiffeddiannwr yn mynd rhagddynt.

7.1.12 Bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn yr ardal, yn ddibynnol ar gapasiti'r ysgol ar y pryd (ac yn amodol ar hyfywedd).

7.1.13 Ysgol Pencae: Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd digon o gapasiti yn yr ysgol hon i ddiwallu anghenion yr ardal mewn perthynas â'r Gymraeg. Os yw nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol, bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd ledled ardal y gorllewin (yn amodol ar hyfywedd).

7.1.14 Ysgol Capelulo: Mae'r ysgol hon yn llawn ar hyn o bryd, ac mae'r amcanestyniadau'n dangos y bydd hynny'n parhau. Mae'r ysgol yn cynnig addysg drwy gyfrwng y Saesneg ar gyfer Penmaenmawr a Dwygyfylchi. Yn seiliedig ar y ffigyrau hyn, bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn yr ardal hon (yn amodol ar hyfywedd).

7.2 Ardal Strategaeth CDLIN y Creuddyn:

7.2.1 Caiff addysg gynradd yn Llanrhos a Deganwy ei darparu gan Ysgol Deganwy (298 o ddisgyblion). Mae yna rywfaint o gapasiti ar gael. Rhagwelir na fydd llawer o newid yn nifer y disgyblion yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

7.2.2 Mae Ysgol Awel y Mynydd yng Nghyffordd Llandudno yn ysgol gynradd ddwy ffrwd. Dim ond Cyffordd Llandudno sydd o fewn dalgylch y ffrwd Saesneg. Mae dalgylch y ffrwd Gymraeg yn ardal fwy sy'n cynnwys Deganwy, Conwy a Glan Conwy. Mae lle i 460 o ddisgyblion. Mae yna 361 o ddisgyblion ar hyn o bryd, sy'n gadael 98 o leoedd gwag.

7.2.3 Ysgol Porth y Felin yw'r ysgol gynradd ar gyfer Conwy. Mae lle i 325 o ddisgyblion. Mae yna 310 o ddisgyblion ar hyn o bryd, sy'n gadael 15 o leoedd gwag. Mae Ysgol Llangelynnin hefyd yn berthnasol o ran darpariaeth addysg Gymraeg yr ardal. Mae yna 34 o leoedd gwag yma, gyda nifer y disgyblion yn debygol o aros yn weddol gyson.

7.2.4 Mae lle i 145 o ddisgyblion yn Ysgol Glan Conwy. Mae yna 115 o ddisgyblion ar hyn o bryd, sy'n gadael 30 o leoedd gwag. Rhagwelir cynnydd bach yn nifer y disgyblion.

7.2.5 Ysgol Glanwydden yw'r ysgol gynradd ar gyfer Bae Penrhyn. Mae lle i 287 o ddisgyblion. Mae yna 276 o ddisgyblion ar hyn o bryd, sy'n gadael 11 o

leoedd gwag. Mae Ysgol Morfa Rhianedd yn Llandudno yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer yr ardal hon.

7.2.6 Mae darpariaeth addysg gynradd Saesneg Llandudno yn cael ei darparu gan Ysgol Tudno (161 o ddisgyblion), Ysgol Ffordd Dyffryn (153 o ddisgyblion) ac Ysgol Craig y Don (274 o ddisgyblion), gydag Ysgol Morfa Rhianedd (134 o ddisgyblion) yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Ysgol San Siôr (212 o ddisgyblion), Ysgol Bodafon (80 o ddisgyblion) ac Ysgol Bendigaid William Davies (116 o ddisgyblion) yn darparu addysg ffydd.

7.2.7 Mae yna ryw faint o leoedd gwag ymhob ysgol ac eithrio Ysgol San Siôr. Mae'r amcanestyniadau yn awgrymu y bydd nifer y disgyblion yn lleihau yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn. Rhagwelir y bydd y niferoedd yn Ysgol Morfa Rhianedd ac Ysgol Bendigaid William Davies yn aros yn weddol sefydlog.

Tabl 7: capasiti a nifer y disgyblion yn ardal strategaeth y Creuddyn (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020 a CYBLD 2024, Addysg, CBSC

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Niferoedd rhagamca nol 2029	Yn byw yn nalgylch yr ysgol
Ysgol Deganwy	318	20	298	296	49%
Ysgol Awel y Mynydd, Cyffordd Llandudno	459	98	361	306	77
Ysgol Porth y Felin, Conwy	323	30	293	245	64%
Ysgol Glan Conwy	147	47	100	109	80%
Ysol Glanwydden, Bae Penrhyn	287	11	276	253	55%
Ysgol Tudno, Llandudno	226	65	161	129	50%
Ysgol Ffordd Dyffryn, Llandudno	199	46	153	129	64%
Ysgol Craig y Don	366	92	274	210	47%
Ysgol Morfa Rhianedd, Llandudno	170	36	134	132	83%
Ysgol San Siôr, Llandudno	212	0	212	204	63%
Ysgol Bodafon, Llandudno	108	28	80	53	58%

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Niferoedd rhagamca nol 2029	Yn byw yn nalgyrch yr ysgol
Ysgol Bendigaid William Davies, Llandudno	179	63	116	117	93%

*Sylwer: yn seiliedig ar ddalgylch y ffrwd Saesneg

7.2.8 Mae'r tabl uchod hefyd yn dangos canran y disgyblion sy'n mynd i'r ysgolion ac yn byw o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol honno. Ar gyfer Ysgol Deganwy, mae nifer fawr o'r disgyblion yn byw tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn byw yng Nghyffordd Llandudno.

7.2.9 Mae ffigyrau Ysgol Awel y Mynydd yn rhai ar gyfer dalgylch y ffrwd Saesneg. Mae'r disgyblion sy'n byw tu allan i'r dalgylch yn cynnwys y rheiny sy'n byw yn nalgyrch y ffrwd Gymraeg (45 disgybl neu 11%), ac felly yn dibynnu ar ba ffrwd mae'r disgyblion ynddi, gall y ganran sy'n byw o fewn y dalgylch fod yn uwch.

7.2.10 Mae bron i ddau draean (64%) o ddisgyblion Ysgol Porth y Felin yn byw yn nalgyrch yr ysgol, gyda 15% yn byw yng Nghyffordd Llandudno.

7.2.11 Mae canran uchel (80%) o ddisgyblion Ysgol Glan Conwy yn byw yn y dalgylch. O ran Ysgol Glanwydden, mae bron i hanner y disgyblion yn byw tu allan i ddalgylch yr ysgol (45%). Mae'r rhan fwyaf yn byw yn yr ardal gyfagos.

7.2.12 O ran ysgolion Llandudno, er bod canran y disgyblion sy'n byw tu allan i ddalgylch yr ysgol yn uchel i rai, mae'r rhan fwyaf yn byw o fewn ardal leol Llandudno.

7.2.13 Ni fydd pob plentyn a fydd yn byw yn y datblygiadau newydd arfaethedig neu ymrwymedig yn yr ardal yn mynd i ysgol y dalgylch. Bydd rhai yn dewis ysgol y tu allan i'r dalgylch am resymau amrywiol. Er enghraifft, bydd rhai yn dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill yn dewis ysgol ffydd.

7.2.14 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgyrch Ysgol Deganwy. Mae bron i ddau draean yn dewis Ysgol Deganwy (65%). Mae yna hefyd ychydig bach o blant y dalgylch yn mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 8: Dewis ysgol yn nalgyrch Ysgol Deganwy (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgyrch Ysgol Deganwy)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	220	100%
Ysgol Deganwy	145	65%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	15	8%
Ysgolion ffydd**	20	9%
Arall	40	19%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.15 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgyrch ffrwd Saesneg Ysgol Awel y Mynydd. Nid oedd yn bosibl gwahanu'r disgyblion yn rhai cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mae ychydig dros hanner y plant yn mynd i Ysgol Awel y Mynydd.

Tabl 9: Dewis ysgol dalgyrch Ysgol Awel y Mynydd (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgyrch Ysgol Awel y Mynydd)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	615	100%
Ysgol Awel y Mynydd	325	53%
Ysgol Deganwy	100	16%
Ysgol Porth y Felin	50	8%
Ysgol Glanwydden	20	3%
Llandudno	25	4%
Bae Colwyn	25	4%
Arall (CBSC)	10	2%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	20	3%
Ysgolion ffydd**	35	6%
Ysgol y Gogarth	10	2%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.16 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Porth y Felin. Mae oddeutu dau draean yn cadw at y dalgylch. Mae 55 plentyn (19%) yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Tabl 10: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Porth y Felin (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Porth y Felin)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	295	100%
Ysgol Porth y Felin	195	67%
Ysgol Llangelynnin (Cymraeg)	30	11%
Ysgol Awel y Mynydd (dwy ffrwd)	20	8%
Ysgol Deganwy	10	3%
Arall (CBSC)	20	8%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	5	1%
Ysgolion ffydd**	5	1%
Ysgol y Gogarth	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.17 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Glan Conwy. Mae 67% o blant yr ardal hon yn mynd i'r ysgol leol.

Tabl 11: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Glan Conwy (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgyrch Ysgol Glan Conwy)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	140	100%
Ysgol Glan Conwy	90	67%
Ysgol Awel y Mynydd (dwy ffrwd)	10	9%
Arall (CBSC)	20	13%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	10	7%
Ysgolion ffydd**	5	2%
Ysgol y Gogarth	5	2%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.18 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw ymhob dalgyrch ar gyfer Ysgol Tudno, Ysgol Ffordd Dyffryn ac Ysgol Craig y Don. Mae yna lawer o orgyffwrdd yn newis teuluoedd Llandudno, sydd yn rhywbeth i'w ddisgwyl mewn ardal drefol gydag ysgolion hygyrch.

Tabl 12: Dewis ysgol yn Llandudno fesul dalgyrch ysgol (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol	Nifer Ysgol Tudno	% Ysgol Tudno	Nifer Ysgol Ffordd Dyffryn	% Ysgol Ffordd Dyffryn	Nifer Ysgol Craig y Don	% Ysgol Craig y Don
Cyfanswm	405	100%	380	100%	285	100%
Ysgol Craig y Don	55	14%	60	15%	155	54%
Ysgol Ffordd Dyffryn	40	10%	105	27%	10	3%
Ysgol Tudno	90	22%	60	16%	10	4%
Ysgol Morfa Rhianedd*	55	14%	40	10%	25	9%
Ysgol San Siôr**	95	24%	45	12%	25	9%
Ysgol Bodafon**	10	3%	5	2%	20	7%
Ysgol Bendigaidd William Davies**	20	5%	40	11%	15	5%
Ysgol Glanwydden	5	1%	5	1%	10	3%
Ysgolion eraill	25	6%	20	5%	15	5%

Ysgol	Nifer Ysgol Tudno	% Ysgol Tudno	Nifer Ysgol Ffordd Dyffryn	% Ysgol Ffordd Dyffryn	Nifer Ysgol Craig y Don	% Ysgol Craig y Don
Ysgol y Gogarth	5	1%	5	1%	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.19 Mae'r tabl isod yn dangos i ba ysgol mae plant dalgylch Ysgol Morfa Rhianedd yn mynd iddi. Dylid nodi mai hwn yw'r dalgylch ar gyfer addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n ardal fawr.

Tabl 13: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Morfa Rhianedd (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Morfa Rhianedd)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	1,315	100%
Ysgol Morfa Rhianedd*	125	9%
Ysgol Tudno	165	13%
Ysgol Ffordd Dyffryn	150	12%
Ysgol Craig y Don	280	21%
Ysgol San Siôr***	175	13%
Ysgol Bendigaid William Davies***	80	6%
Ysgol Bodafon***	55	4%
Ysgol Glanwydden	170	13%
Ysgol Llandrillo-yn-Rhos	30	2%
Ysgol Deganwy	15	1%
Ysgolion Cymraeg eraill**	25	2%
Ysgolion eraill yn y fwrdeistref	30	2%
Ysgol y Gogarth	15	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg categori 1

**Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

***Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.20 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Glanwydden. Mae 62% o blant yr ardal hon yn mynd i'w hysgol leol.

Tabl 14: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Glanwydden (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Glanwydden)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	240	100%
Ysgol Glanwydden	150	62%
Ysgol Llandrillo-yn-Rhos	20	9%
Ysgol Bodafon (Ffydd)	15	6%
Ysgol Craig y Don	10	4%
Ysgol Pen y Bryn	10	4%
Arall (CBSC)	15	6%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	5	3%
Ysgolion ffydd eraill**	10	5%
Ysgol y Gogarth	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.21 Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o nifer y disgyblion a all fod yn preswyl ar safleoedd yn nalgylchoedd ysgolion sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r disgyblion hyn eisoes yn byw yn y fwrdeistref ac na fyddan nhw'n mynd i ysgol yn eu dalgylch lleol (gwelwch y tablau dewis ysgol uchod). Bydd dyraniad Safle Strategol Llanrhos yn darparu cyfran fawr o'r cartrefi newydd sy'n weddill ar gyfer yr ardal hon. Bydd angen dyraniadau eraill hefyd. Rhagwelir hefyd y bydd llawer o hap-safleoedd yn yr ardal hon.

Tabl 15: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn y Creuddyn

Ffynhonnell: Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, CBSC

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif o nifer y disgyblion (5-11 oed)
Safle Strategol Llanrhos	Dyraniad	140	21
Dyraniadau eraill	Nant y Coed, Queen's Road, safle piblinell (cais cynllunio 0/51939)	272	41
Hap-safleoedd ar gyfer y Creuddyn	Safleoedd amrywiol tan ddiwedd cyfnod y Cynllun	195	29
Plas Penrhyn, Bae Penrhyn	Rhoddwyd caniatâd cynllunio. Dechreuodd y datblygiad ym mis Medi 2023.	21	3
Ffordd Top Llan, Glan Conwy	Rhoddwyd caniatâd cynllunio. Dechreuwyd ar y datblygiad.	107	16
Nant y Gamar, Llandudno	Rhoddwyd caniatâd cynllunio. Rhagweld ei gwblhau yn y 18 mis nesaf.	32	5
Iard Nwyddau, Llandudno	Rhoddwyd caniatâd cynllunio. Dechreuwyd ar y datblygiad.	77	12

Argymhellion

7.2.22 Bydd capasiti pob ysgol yn cael ei fonitro drwy gydol proses y CDLIN. Bydd cyfraniad ariannol yn ofynnol gan ddatblygwyr (yn amodol ar hyfywedd ariannol), os ystyrir hynny'n angenrheidiol ar gyfer creu capasiti mewn ysgolion.

7.2.23 **Ysgol Deganwy:** Neilltuwyd tir ar gyfer addysg fel rhan o ddyraniad safle strategol Llanrhos ar gyfer cam Strategaeth a Ffefrir y CDLIN. O ganlyniad i newidiadau i faint y safle a nifer y cartrefi newydd, ystyrir bellach y gellir darparu ar gyfer y capasiti ychwanegol sydd ei angen ar safle presennol yr ysgol. Os ystyrir bod angen ysgol newydd, bydd fframwaith polisi'r CDLIN ar gyfer ysgolion newydd yn cefnogi hyn ar dir y tu allan i ffin yr anheddiad, yn amodol ar bolisiâu eraill. Bydd angen swm cymudedig o ddyraniad y Safle

Strategol a safleoedd eraill o fewn y dalgylch pe bai problem gyda capasiti yn y dyfodol (yn amodol ar hyfywedd).

